**Sesiwn 2000-2001 Rhif 56**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD IAU, 8 MAWRTH 2001

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Atebwyd y **9** chwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 4. Tynnwyd cwestiynau 5 a 6 yn ôl.

**9.22am**

**Cwestiynau i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Atebwyd y **5** chwestiwn cyntaf

**9.41am**

**Datganiadau:**

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Rownd Derfynol Cwpan yr FA

**9.52am**

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar Glwy'r Traed a'r Genau

**10.24am**

Gwnaeth y Trefnydd gynnig trefniadol o dan RhS6.16 i alluogi'r Cynnig Heb Ddyddiad Trafod canlynol i gael ei ddwyn ymlaen.

**Pleidleiswyd:**

O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cymerawywyd y cynnig trefniadol**

**Cynnig Heb Ddyddiad Trafod**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag adran 62 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn dirprwyo unrhyw rai o swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol, o dan is-ddeddfwriaeth a wnaed rhwng 9 Mawrth a 1 Mai 2001, gan gynnwys y dyddiadau hynny, gan ddefnyddio'r pwer galluogi yn adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 lle bo'r fath ddeddfwriaeth yn ymwneud â rheoli clwy'r traed a'r genau, i'r Prif Weinidog hyd at 23:59 o'r gloch ar 1 Mai 2001.

**Pleidleiswyd:**

O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cymeradwywyd y cynnig**

**10.25am**

**Cymeradwyo Rheoliadau Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2001**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Ionawr 2001.

**Pleidleiswyd:**

O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cytunwyd ar egwyddor y cynnig**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

a. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog 11.5 sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2001;

a. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Ionawr 2001.

**Pleidleiswyd:**

O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**10.36am**

***Cynnig cyfansawdd i gymeradwyo:***

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:*

- Yn cymeradwyo:

- Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Ionawr 2001, ac

    - Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2001.

- Yn cymeradwyo:

    - Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Ionawr 2001, ac:

    - Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2001.

- Yn cymeradwyo:

  - Rheoliadau Addysg (Cofnodion Disgyblion) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2001, ac

  - Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy’n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Cofnodion Disgyblion) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Chwefror 2001.

- Yn cymeradwyo:

  - Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) (Diwygio) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Ionawr 2001, ac

  - Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy’n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) (Diwygio) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2001.

**Pleidleiswyd:**

O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cymeradwywyd y cynnig cyfansawdd**

**10.37am**

Gwnaeth y Trefnydd gynnig trefniadol o dan RhS 6.16 er mwyn ymestyn y cyfarfod hyd 1.30pm

**Pleidleiswyd:**

O Blaid 37; Ymatal 2; Yn erbyn 2; Cyfanswm 41

**Cymeradwywyd y cynnig trefniadol**

**10.39am**

**Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Anfantais Gymdeithasol**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gynhwysiant Cymdeithasol a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad drwy'r e-bost ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2001.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

, ac yn galw ar y Weinyddiaeth Lafur/y Democratiaid Rhyddfrydol i wneud datganiad ynghylch yr argymhellion yn adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Ty'r Cyffredin 'Social Exclusion in Wales' (tudalen xxxix 'Matters for the National Assembly for Wales') y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith.

**Pleidleiswyd:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 14; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 42

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Y cynnig**

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd y cynnig**

**11.42am**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Dadl i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Maint Dosbarthiadau mewn**

**Ysgolion Iau**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, o dan adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo’r Cyllid Refeniw Ychwanegol ar gyfer Adroddiad Grant Arbennig Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol (Rhif 4) (Cymru) 2001, a anfonwyd at Aelodau’r Cynulliad drwy’r e-bost a’i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2001.

**Pleidleiswyd:**

O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cymeradwywyd y cynnig**

**11.59am**

**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn datgan pryder dwfn ynglyn â’r setliad ariannol ar gyfer addysg yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr ar Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe):**

*Dileu popeth ar ôl ‘Cenedlaethol’ a rhoi yn ei le*

‘yn croesawu’r gwariant uwch ar addysg yng Nghymru yn sgil yr arian ychwanegol sydd ar gael i Gymru yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y DU’.

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru):**

*Dileu’r atalnod llawn ar ôl "y Deyrnas Unedig" ac ychwanegu:*

ac yn galw felly ar Weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur i bennu Asesiad o Wariant Safonol penodol ar gyfer cyllidebau a ddirprwywyd i ysgolion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol â’r hyn a awgrymir yn y papur ymgynghori *Symleiddio’r System*, er mwyn sicrhau mwy o dryloywder i rieni ac etholwyr lleol o ran ariannu ysgolion a gynhelir yn eu hardal.

**3. William Graham (Dwyrain De Cymru):**

*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:*

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo argymhellion ynghylch ariannu addysg yng Nghymru yn unol â'r hyn a amlinellir gan y Comisiwn Archwilio ar dudalen 61 eu hadroddiad *Money Matters*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2000*.*

**4. William Graham (Dwyrain De Cymru):**

*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:*

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn galw ar Weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol/ Llafur i bennu targed ar gyfer awdurdodau addysg lleol yng Nghymru er mwyn codi canran eu cyllideb ysgolion lleol a ddirprwyir i ysgolion o 81% ar hyn o bryd i 90% yn 2002/03, ac yn nodi bod lefel y dirprwyo gan awdurdodau lleol yn Lloegr yn 84% ar hyn o bryd.

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru):**

*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:*

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn galw ar Weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol/ Llafur wrth iddi ystyried arian ar gyfer addysg i osod buddiannau disgyblion, rhieni ac athrawon uwchlaw sefyllfa lobïo Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**6. William Graham (Dwyrain De Cymru):**

*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:*

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn galw ar Weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol/ Llafur i gyflwyno Adroddiad Grant Arbennig ym mlwyddyn ariannol 2001-02 i wneud taliadau uniongyrchol i ysgolion o rhwng £3,000 a £9,000 o leiaf ar gyfer pob ysgol gynradd a rhwng £30,000 a £50,000 ar gyfer pob ysgol uwchradd yng Nghymru yn unol â'r hyn a ddigwyddodd yn yr *Adroddiad Grant Arbennig ar Safonau Ysgolion a Grantiau Cymorth i Ysgolion*, a gymeradwywyd yn unfrydol gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 16 Mai 2000.

**Pleidleiswyd:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 17; Cyfanswm 45

**Cymeradwywyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 4; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 45

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 4; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 45

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 4; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 43

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 4; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 45

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 4; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 45

**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 17; Cyfanswm 45

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**13.00pm**

**Dadl Fer: Dr Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru); Iawndal i Hemoffiligion a heintiwyd gan**

**Hepatitis C**

**Daeth y cyfarfod i ben am 13.22pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 13 Mawrth 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 6 MAWRTH 2001**

Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Adroddiad Terfynol: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn Addysg

The Plant Protection Products (Amendment) Regulations 2001 - Dim Copi Cymraeg ar gael

Memorandwm Cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.12A - Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro) (Cyfalaf Cychwynnol) 2001

Cynigion y Cabinet ar Gyfer deddfwriaeth sylfaenol 2001-2

Ardoddiad gan y Pwyllgor Deddfau LC 186 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru)2001

Ardoddiad gan y Pwyllgor Deddfau LC185 Rheoliadau Tai (Cadw'r Hawl i Brynu) (Diwygio) (Cymru) 2001

Ardoddiad gan y Pwyllgor Deddfau LC184 Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) (Cymru) 2001

Ardoddiad gan y Pwyllgor Deddfau LC183 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau gan Awdurdodau Lleol i Awdurdodau Iechyd) (Swyddogaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2001

Ardoddiad gan y Pwyllgor Deddfau LC182 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tal Cosb) (Cymru) 2001

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau LC181 Rfheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2001

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau LC179 Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2001

**DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 5 MAWRTH 2001**

Memorandum of Corrections in Pursuant with Standing Order 22.12A - The Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Amendment) (Wales) Regulations 2001 - Dim Copi Cymraeg ar gael.